

Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2021



Mae United Welsh yn gorff arloesol nid-er-elw sy'n darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer pobl yn ne Cymru. Rydym yn cyflogi bron 400 person ac mae ein Grŵp yn cynnwys Celtic Horizons Ltd sydd, mewn partneriaeth yn rheoli ein gwasanaethau eiddo, a Harmoni Homes Ltd sy'n adeiladu tai fforddiadwy a thai i'w gwerthu ar y farchnad.

Rydym yn rheoli ychydig dros 6000 cartref ar draws 11 awdurdod lleol a dros y pum mlynedd diwethaf wedi adeiladu dros 1000 cartref. Rydym yn darparu amrediad o lety, yn cynnwys Extra Care a chartrefi cymorth, ac wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill i ddarparu gwasanaethau arbenigol sy'n helpu i ddiogelu llesiant pobl a'u cymell i fyw'n annibynnol o fewn y gymuned.

Rydym yn benderfynol o wneud gwahaniaeth, cadw pobl yn saff, anwesu amrywiaeth a herio anghydraddoldeb, gweithio'n effeithiol ac effeithlon, a helpu pawb i wneud y gorau o'u bywydau. Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i atal caethwasiaeth fodern ac i ganolbwyntio ar ddiogelu llesiant pobl a helpu dioddefwyr.

Mae ein mesurau i atal caethwasiaeth fodern yn gweithio ochr yn ochr â'n hymrwymiad i gynnal cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, a diogelu pobl. Rydym yn deall fod modd i ni weithredu i atal caethwasiaeth fodern o fewn ein cadwyni cyflenwi ac wrth weithio gydag unigolion bregus, gan weithio'n uniongyrchol gyda rhai a allai fod yn ddiodeswyr. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y gellid defnyddio ein cartrefi i danosod neu warchod unigolion a theuluoedd wedi'u masnachu - ac wedi ymrwmo i gydweithio â phartneriaid fel yr Heddlu i ymchwilio a thacio'r arferion annerbyniadwy ac anghyfreithlon hyn.

Ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf yw hwn, felly dyma ddechrau ar ein gwaith yn y maes.

Strwythur & cadwyni cyflenwi

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu ein mapiau cadwyni cyflenwi, asesiadau risg a gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy.

Bydd yn sefyll ochr yn ochr â'n mesurau diwydrwydd dyladwy fel cyflogwr Cyflog Byw.

Polisiau ym meysydd caethwasiaeth a marchnata pobl

Rydym eisoes wedi llunio:

- Polisiau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion
- Cod ymarfer staff
- Gweithdrefnau adrodd cyfrinachol (chwythu chwiban)
- Polisiau a gweithdrefnau recriwtio

Byddwn yn eu hadolygu yng nghyd-destun atal caethwasiaeth fodern ac yn datblygu polisiau a gweithdrefnau perthnasol eraill er mwyn darparu fframwaith er cynnal diwydrwydd dyladwy cyflenwyr a chefnogi dioddefwyr os datgelir caethwasiaeth fodern.

Mesurau effeithiol er taclo caethwasiaeth fodern

Rydym eisoes wedi cael profiad estynedig o gydweithio mewn partneriaeth ag eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol lleol, wrth gefnogi pobl yn dioddef caethwasiaeth fodern o fewn ein cymunedau. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y gellid defnyddio ein cartrefi i danosod neu warchod unigolion a theulu oedd wedi'u masnachu - ac wedi ymrwymo i gydweithio â phartneriaid fel yr Heddlu i ymchwilio a thaclo'r arferion annerbyniadwy ac anghyfreithlon hyn.

Byddwn yn adeiladu ar y profiad hwnnw wrth ddatblygu cynlluniau i daclo achosion caethwasiaeth fodern o fewn ein gweithlu, cadwyni cyflenwi neu sefyllfaoedd eraill.

Ein prif gonsyrn ar bob amser fydd llesiant dioddefwyr neu ddarpar ddioddefwyr.

Hyfforddiant

Er mwyn cefnogi'r camau uchod, byddwn yn hysbysu pob aelod staff o oblygiadau caethwasiaeth fodern, y niwed mae'n achosi a'r arwyddion er nodi ei fod yn digwydd.

Fel cam cychwynnol, bydd Both Dysgu arlein y staff yn cynnwys modiwlau rhagarweiniol ar y dilynol:

- Caethwasiaeth Fodern - crynodeb cyfreithiol
- Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
- Arwyddion er nodi Masnachu Pobl

Byddwn yn ychwanegu at y modiwlau cyffredinol hyn gyda deunydd addas i'n meysydd gwaith.